

---

## Cyflwyno Astudiaethau Iaith Saesneg – L101

---

### Patrwm cyflwyno

O fis Chwefror 2019 i fis Medi 2019

### Disgrifiad o'r modiwl

Mae iaith yn rhan hollbwysig o fywyd dynol. Mae'n rhywbeth yr ydym yn dibynnu arnom ym mron pob agwedd ar ein bywyd – ond a ydym wir yn gwybod beth yw iaith, a sut mae'n gweithio? Mae hanes, diwylliant, gwleidyddiaeth, datblygiadau technolegol arloesol a phrofiad personol yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn defnyddio iaith. Byddwch yn astudio cyfres o bynciau cyfoes sy'n ymchwilio i'r modd y defnyddir iaith mewn bywyd bob dydd, gan ganolbwyntio ar rôl Saesneg mewn byd cysylltiedig ac amrywiol. Gan ddefnyddio deunyddiau argraffedig ac ar-lein, byddwch yn hefyd yn dysgu sut y gall deall iaith eich helpu i gyfathrebu'n fwy effeithiol.

### Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gradd uwch mewn disgyblaeth berthnasol (e.e. ieithyddiaeth/ieithyddiaeth gymhwysol/ieithyddiaeth gymdeithasegol, astudiaethau iaith Saesneg neu ddisgyblaeth gysylltiedig) neu brofiad cymaradwy yn Y Brifysgol Agored mewn astudiaethau ieithyddiaeth gymhwysol/iaith Saesneg.
- Gwybodaeth am y broses o ddisgrifio a dadansoddi'r modd y caiff iaith ei defnyddio mewn un o'r meysydd canlynol, o leiaf: *ymagweddau cymdeithasol at iaith; iaith a'r cyd-destun cymdeithasol; amrywiad ieithyddiaeth gymdeithasegol; iaith a chreadigrwydd; Saesneg yng nghyd-destun amlieithrwydd; iaith a'r cyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol; iaith mewn cyd-destunau proffesiynol; iaith a llythrennedd academaidd*
- Y gallu i ddatblygu ymagwedd ryngddisgyblaethol at astudio Saesneg, a'i meithrin ymhlith eraill
- Sgiliau TG da
- Profiad o addysgeg ar-lein gydamseredig ac anghydamseredig, ac ymrwymiad iddi
- Profiad o waith cynllunio a hyfforddi a rennir (wyneb yn wyneb ac ar-lein) a/neu ymrwymiad iddo
- Parodrwydd i ddilyn dull integredig, fesul cam o ddatblygu iaith a llythrennedd academaidd ar lefel 1, gydag arweiniad a chymorth, a hynny drwy gydol y modiwl.

Ymrwymiad i asesu ac adborth ffurfiannol

### Gwybodaeth ychwanegol

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrywyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	7